# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth: ebost

Gellir pastio'r testun a darlun isod i mewn i ebost a'i anfon i'ch gweithwyr.



## Awgrym o ddarlun pennawd:




## Awgrym o deitl ebost:

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn Newid: cael gwybod y ffeithiau

## Awgrym o ebost:

A oeddech chi'n gwybod bod Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael ei gyflwyno ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016? Byddwch yn gallu gwneud cais Pensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Mae hyn yn berthnasol i:

- dynion wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- merched wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953

Os ganwyd chi cyn y dyddiadau hyn byddwch yn gallu gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth o dan yr hen system yn lle hynny.

Gallwch wirio pryd rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn www.gov.uk/state-pension-age

Bydd faint a gewch pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn dibynnu fel arfer ar eich cofnod Yswiriant Gwladol. Nid yw pawb yn cael y swm llawn. I lawer o'r rhai nad ydynt yn cael y swm llawn o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth, bydd hyn oherwydd eu bod wedi eithrio o'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn y gorffennol ac wedi bod yn talu i mewn i bensiwn preifat yn lle hynny.

Os ydych wedi eithrio, bydd swm eich Pensiwn newydd y Wladwriaeth a'r incwm ychwanegol o'ch pensiwn preifat, pan maent wedi cael eu ychwanegu at ei gilydd, yn fwy na'r swm llawn o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth. Felly nid ydych yn colli allan, dim ond yn cael yr un faint mewn ffordd wahanol.

Gall rhai pobl gael mwy na'r swm llawn os ydynt wedi adeiladu digon o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn yr hen gynllun.

Gallwch ofyn am ddatganiad personol Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn (www.gov.uk/check-state-pension). Y Pensiwn newydd y Wladwriaeth llawn yw £155.65 yr wythnos (cyfradd 2016/17)

I'ch helpu i ddeall sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cyfres o ffeithlenni, offer a fideos yn www.gov.uk/yourstatepension.

Parhad ar dudalen 2

Cyhoeddwyd mis Ebrill2016

# Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth: Ebost gweithiwr

Gellir pastio'r testun a darlun isod i mewn i ebost a'i anfon i'ch gweithwyr.



Cewch wybod y ffeithiau drwy:

- gwirio eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn www.gov.uk/state-pension-age
- cael datganiad bersonol Pensiwn y Wladwriaeth yn www.gov.uk/check-state-pension
- cael gwybod os ydych yn neu erioed wedi eithrio (www.gov.uk/contracted-out/check-if-youre-contracted-out) a sut y gallai hyn effeithio ar eich swm cychwynnol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o beth mae'r newidiadau yn ei olygu i chi ac eich ymddeoliad.

Cyhoeddwyd mis Ebrill 2016